

PROCESSIONS yng Nghanolfan Grefft Rhuthun

Gwaith celf cyfranogiad torfol ledled y Deyrnas Unedig yw *PROCESSIONS*, i nodi 100 mlynedd y bleidlais i ferched, wedi'i gynhyrchu gan Artichoke a'i gomisiynu gan 14–18 NOW, yn seiliedig ar syniad gan Darrell Vydellingum.

delwedd: Emmeline Pankhurst, actifydd ac arweinydd Mudiad y Swffragetaid Prydeinig. Delwedd drwy garedigrwydd Llyfrgell y Merched yn yr LSE. Dyluniad gan Grey.



Bydd *PROCESSIONS* yn gwahodd merched* a genethod ledled y Deyrnas Unedig i ddod at ei gilydd ar strydoedd Belfast, Caerdydd, Caeredin a Llundain ar ddydd **Sul 10 Mehefin 2018** i nodi'r foment hanesyddol hon mewn portread byw, cyffrous o ferched yn yr unfed ganrif ar hugain.
**y rheiny sy'n uniaethu fel merched neu'n an-neuaidd ('non-binary').*

Yn rhan o'r digwyddiad mae sefydliadau Celfyddyd ledled y Deyrnas Unedig wedi'u haseinio i ddewis artist i ddylunio a gwneud baner ar gyfer yr Orymdaith ar Fehefin 10fed. O ganlyniad, mae cant o artistiaid sy'n ferched wedi'u comisiynu i weithio â chymunedau'r Deyrnas Unedig i greu baneri 100 mlywyddiant ar gyfer *PROCESSIONS*.

Mae Canolfan Grefft Rhuthun yn falch o gyhoeddi ein bod ni'n un o'r sefydliadau artistiaid hynny sy'n cyfranogi yn y digwyddiad a'n prif artist fenywaidd fydd Lisa Carter.

Mae Lisa Carter yn byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Bydd ei gwaith, er â'i wreiddiau mewn paentio a dylunio, weithiau'n cyfuno'r prosesau hun â cherfluniaeth a gosodiadau. www.lisa-carter.com
Fe wnaeth y merched – a ddaeth at ei gilydd ar y strydoedd gan mlynedd yn ôl – eu huanin yn weladwy â fflagiau, baneri, pinnau a rhosedi. Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar destun a thecstilau, yn adleisio arferion ymgyrch y bleidlais, a bydd y baneri a wneir yn cynrychioli ac yn dathlu lleisiau gwahanol gwragedd a merched o wahanol gefndiroedd.



AN ARTICHOKe PROJECT
COMMISSIONED BY
14-18-NOW
WWI CENTENARY ART COMMISSIONS

I gael mwy o wybodaeth ar y digwyddiad cenedlaethol ewch i *PROCESSIONS 2018* ar y wefan: www.processions.co.uk

CYFRANOGWCH

Fe hoffem i **CHI** gymryd rhan a'n helpu i wneud banner yng Nghanolfan Grefft Rhuthun ar gyfer gorymdaith *PROCESSIONS* yng Nghaerdydd ar Fehefin 10 2018.

Gweithdai creadigol galw heibio â Lisa Carter.

Gweithdy 1:
Gwneud ein dyfodol yn un a rennir

Sul 13 Mai 2018
1.30pm – 4.00pm
AM DDIM dim angen bwcio, yn addas i bob oed

Gwahoddiad i wneud poster/posteri wedi'u cyd-gynhyrchu, a'u hysbrydoli gan faneri'r Bleidlais. Bydd y gweithdy'n cyfuno sgrin-brintio gydag archwiliad o raffeg (geiriau a delweddau) i greu poster mawr sy'n adlewyrchu ar y pryderon y bydd merched/genethod yn eu hwynebu heddiw.

Gweithdy 2:
Gwneud Baneri

Sul 27 Mai 2018
1.30pm – 4.00pm
AM DDIM dim angen bwcio, yn addas ar gyfer pob oed

Bydd y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar destun a thecstilau. Yn rhan o'r gweithdy fe hoffem i chi ddod â darn o ffabrig scrap efo chi, neu hen gas gobennydd i wneud eich baner eich hun a mynd â hi adref y diwrnod hwnnw neu helpu i wneud ein banner fawr ar gyfer y Gorymdaith ar ddydd Sul, 10fed o Fehefin i nodi canmlwyddiant Deddf Cynrychioliad y Bobl, a roddodd yr hawl i bleidleisio i'r merched Prydeinig cyntaf. *Byddai sgiliau gwnio a thecstilau'n ddefnyddiol ond nid yn angenrheidiol.*

SGYRSIAU

Yn ogystal â chynnal cyfres o weithdai ymarferol rydyn ni hefyd yn gwahodd Curaduron/Ysgrifenywyr enwog i rannu eu gwybodaeth a'u mewnwleidiad i fudiad hanesyddol y bleidlais mewn perthynas â **CHREFFT**.

Sgwrs brynhawn â Dr Melanie Miller

Benyweidd-Dra Hanfodol? Crefft, Celfyddyd a Mudiad y Merched
Sul 29 Ebrill 2018
2.00pm – 3.00pm
AM DDIM ffoniwch i neilltuo lle

Roedd baneri tecstil, ynghyd ag arteffactau gweledol eraill, â rhan allweddol yn yr ymgyrch dros y bleidlais i ferched.

Dan arweiniad Mary Lowndes a Sylvia Pankhurst, fe ddefnyddiai'r 'Women's Social and Political Union (WSPU)' ddyluniad a lliw i greu hunaniaeth glir ar gyfer ymgyrch y swffragetaid.

'A banner is a thing to float in the wind, to flicker in the breeze, to flirt its colours for your pleasure...'

Mary Lowndes *'Banners and Banner-Making'* 1909.

Gwelwyd swffragetaid gan rai fel merched anfenywaidd. Drwy wneud baneri a oedd yn ymgorffori sgiliau traddodiadol fel brodwaith, dangosodd y swffragetaid nad oedd y merched a oedd yn hawlio'r bleidlais yn brin o 'fedrau benywaidd'. Y cyfrwng oedd y neges.

Mae tecstilau wedi parhau i gael eu defnyddio o fewn gweithredaeth gymdeithasol a gwleidyddol.

Bydd y cyflwyniad hwn yn trafod y defnydd o decstilau gan y swffragetaid yn ogystal ag enghreifftiau mwy cyfoes. Fe roddir ystyriaeth hefyd i'r term 'benyweidd-dra hanfodol' mewn perthynas â chrefft a chelfyddyd, ac ymchwiliad o'r defnydd o brosesau crefft o fewn arfer Celfyddyd Gain. Mae hwn yn destun sydd wedi'i drafod yn frwd am flynyddoedd, ond mae'n arbennig o gymwys o ystyried lleoliad y sgwrs hon.

Sgwrs fore â Dr Elizabeth Goring

Gwisgo'r Lliwiau: gemwaith a mudiad y bleidlais i ferched
Sul 27 Mai 2018
11.00am – 12.00pm
AM DDIM ffoniwch i neilltuo lle

Roedd gemwaith yn arf pwerus yn arfogaeth ymgyrchu merched Prydeinig a oedd yn ymladd am y bleidlais yn gynnar yn yr 20fed ganrif, ac roedd ymgyrchwyr y bleidlais i ferched yn soffistigedig yn y ffyrdd y bydden nhw'n ei ddefnyddio ar gyfer mynegiant gwleidyddol. Câr'r rhan fwyaf o'r gemwaith hwn ei greu'n rhan o ymarferiad marchnata parhaus a ddyfeisiwyd ac a weithredwyd gan y 'Women's Social and Political Union' – yr WSPU – yn y blynyddoedd o 1908 i 1914. Bydd Elizabeth yn archwilio stori gemwaith y bleidlais drwy rai o'r naratifau personol a oedd yn gefndir i'r gemau a'r merched dygn a fyddai'n eu gwneud a'u gwisgo. Bydd hefyd yn trafod rhai o'r mythau a'r camddealltwriaeth sydd wedi datblygu ynghylch gemwaith swffragetaid.